

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lee Waters AS
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith

30 Gorffennaf 2021

Annwyl Llyr,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 2 Gorffennaf 2021 ynglŷn â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd, yr amgylchedd a seilwaith.

Isod rwyf wedi amlinellu cyfres o'r meysydd ffocws â blaenoriaeth ar draws fy mhortffolio ar gyfer y 12–18 mis nesaf. Rwyf wedi cynnwys rhywfaint o gefndir i bob un a fydd, gobeithio, yn rhoi digon o wybodaeth ichi am y tro. Wrth gwrs, rwy'n fodlon ateb unrhyw gwestiynau eraill pan fydd eich Pwyllgor yn cwrdd.

Gwnaethoch ofyn imi yn benodol am fy uchelgeisiau a'm cynlluniau ar gyfer COP26. Mae her newid yn yr hinsawdd yn ei gwneud yn ofynnol i bawb weithio gyda'i gilydd ar draws ffiniau daearyddol a gwahanol sectorau, ac mae cydweithio'n hanfodol os ydym am lwyddo. Fy nod yw y bydd COP26 nid yn unig yn helpu i gyflawni ein hymrwymiadau rhyngwladol, ond hefyd yn darparu cyfleoedd i hyrwyddo'r enghreifftiau gwyb o weithredu ar y cyd yng Nghymru mewn perthynas â'r hinsawdd.

Yn hyn o beth rydym yn cysylltu â Llywodraeth y DU i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i Gymru yn y gynhadledd, ac rydym yn bwriadu cyhoeddi ein cynllun gweithredu ar newid hinsawdd tua'r un adeg â COP26 i ddangos i'r byd ein bod yn genedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang. Ochr yn ochr â hyn, 'COP Cymru' fydd enw cynhadledd flynyddol Cymru ar yr hinsawdd eleni

Newid Hinsawdd

Mae Cymru wedi gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, a chafodd y rhain eu diweddarau ddiwethaf ym mis Mawrth 2021, pan gytunodd y Senedd i osod targed i sicrhau allyriadau sero-net erbyn 2050. Mae'r targedau hyn yn seiliedig ar gyngor gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd (CCC), ein cyngorwyr statudol.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Ymaddasu i Newid Hinsawdd yn disgrifio'r camau mae angen eu cymryd i ymaddasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd, fel rhagor o law yn y gaeaf a hafau cynhesach a sychach. Mae'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adrodd ar amcanion, camau gweithredu a blaenoriaethau yn y dyfodol mewn perthynas ag effeithiau newid yn yr hinsawdd, ac mae hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â chyrrff cyhoeddus a'u hymateb nhw i'r perygl i'r hinsawdd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi amrediad eang o brosiectau arloesol wedi'u cynllunio i sicrhau cynnydd o ran datgarboneiddio ac effeithlonrwydd ynni, ond mae'n dibynnu ar gyllid ar gyfer arloesi gan Lywodraeth y DU / BEIS ac Ewrop.

Ynni

Mae system ynni'r DU yn wynebu cyfnod o newid ac aflonyddu sylweddol, wrth inni drosglwyddo i ffynonellau ynni adnewyddadwy i ategu'r agenda ehangach ar gyfer sero-net. Bydd angen i'r ffordd rydym yn cynhyrchu ynni yng Nghymru esblygu yn unol â'r newidiadau ehangach hyn. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad cynhwysfawr yn amlinellu'r ffordd mae'n ymdrin â pholisi ynni yn Ynni Cymru: Newid Carbon Isel ac rydym wedi cyhoeddi polisiau manylach wedi hynny.

Mae'r system gynllunio ddatganoledig yn un o'n harfau gorau wrth ysgogi newidiadau ledled Cymru yn y tymor hwy. Mae Polisi Cynllunio Cymru, ein prif ddatganiad polisi, yn rhoi echdynnu tanwydd ffosil ar waelod ei hierarchaeth danwydd, sydd yn ei thro yn cefnogi'r dyheadau am system ynni sero-net.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud llawer o waith ar amrediad o fentrau wedi'u cynllunio i hyrwyddo perchnogaeth gyhoeddus a lleihau allyriadau o'r sector pŵer, y sector sy'n parhau i fod â'r allyriadau uchaf yng Nghymru o ganlyniad i ddatblygiadau sy'n golygu bod 16% o drydan y DU sy'n dod o losgi nwy yn cael ei gynhyrchu yng Nghymru.

Er mwyn cyflawni ein huchelgeisiau sero-net bydd angen i Gymru ddatblygu polisi mwy cynhwysfawr ar ddatgarboneiddio gwres, sy'n her drawsbynciol sylweddol sy'n gysylltiedig â pholisiau ar dlodi tanwydd, tai, masnach, diwydiant a gwastraff.

Er mai Llywodraeth y DU sy'n meddu ar y prif bwerau ariannol a rheoleiddiol, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau ar gyfer ynni adnewyddadwy i weld:

- yr hyn sy'n cyfateb i 70% o'r trydan sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru yn dod o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2030;
- 1 gigawatt o gapasiti ynni adnewyddadwy o dan berchnogaeth leol erbyn 2030, a phob datblygiad ynni newydd o leiaf yn rhannol o dan berchnogaeth leol erbyn 2020.

Yn 2019, daeth yr hyn sy'n cyfateb i 51% o'r trydan sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru o ffynonellau adnewyddadwy. Mae cyfradd y cynnydd wedi arafu o ganlyniad i gymhellion Llywodraeth y DU yn dod i ben. Rydym wedi cyrraedd 83% o'r targed i weld cynhyrchu ynni o dan berchnogaeth leol. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir ynghylch ei hymrwymiad i leihau'r defnydd o danwydd ffosil. Mae Cymru wedi cyhoeddi polisiau sy'n anffafriol tuag at echdynnu petrolewm a glo er mwyn cynhyrchu pŵer.

Rydym wedi gweithio gyda phedwar rhanbarth Cymru i ddatblygu strategaethau ynni sy'n tynnu sylw at faint o newid sydd ei angen i gyrraedd sero net, a'r cyfleoedd economaidd y mae hyn yn eu cynnig. Mae hyn yn rhoi Cymru mewn sefyllfa gref i ddatblygu'r cynlluniau mwy manwl ac integredig sydd eu hangen i gynllunio system ynni carbon isel. Bydd y cyfranogiad gan y gymuned rydym yn dechrau ei weld o ganlyniad i'r gwaith hwn yn hanfodol er mwyn sicrhau'r cydsyniad cyhoeddus sydd ei angen i gyflawni lefel y newid sydd ei hangen ar draws meysydd gwres, adeiladau, trafnidiaeth a phŵer.

Mae technoleg hydrogen yn ei chamau cynnar iawn, ond mae'n argoeli'n dda fel dull o ddatrys rhai o'n heriau datgarboneiddio. Daeth ein hymgyngoriad ar Lwybr Hydrogen yng Nghymru i ben ym mis Ebrill.

Rhaglen Ynni'r Môr

Mae buddsoddi mewn seilwaith yn darparu ysgogiad pwysig sydd ei angen yn fawr iawn, gan greu'r amodau ar gyfer twf cynyddol a chynaliadwy yn y tymor canolog a'r tymor hwy.

Ers 2019 mae gwaith wedi bod ar y gweill i ysgogi cynhyrchu ynni ffrwd lanw adnewyddadwy yn y moroedd o amgylch Cymru ac i helpu i gefnogi cynhyrchu mathau eraill o ynni o'r môr. Nod hyn yw creu swyddi a buddsoddiadau mewn diwydiannau newydd yng Nghymru.

Sero-net

Mae Cymru wedi ymrwymo'n ddiweddar i sicrhau sero-net erbyn 2050, ac mae hyn wedi'i osod mewn deddfwriaeth ochr yn ochr â chyfres o gyllidebau carbon pum mlynedd a thargedau ar gyfer pob degawd. Roedd Cyllideb Carbon 1 ar gyfer 2016–2021 ac yn gofyn am ostyngiad cyfartalog o 27%. Roedd Cyllideb Carbon 2 ar gyfer 2021–2025 ac yn gofyn am ostyngiad cyfartalog o 37%. Rydym wedi ymrwymo i gyhoeddi ein Cynllun Carbon Isel newydd i gyd-fynd â COP26 yn Glasgow.

Y targed ar gyfer y degawd 2030 yw gostyngiad o 63% yn erbyn y llinell sylfaen. Ategir hyn gan gyngor CCC ac mae'n adlewyrchu'r angen i'r 2020au fod yn 'degawd o weithredu' os ydym am sicrhau sero-net erbyn 2050.

Mae Bwrdd Llywodraeth Cymru ar Newid Hinsawdd yn datblygu dull cyfannol er mwyn cyflawni'r datgarboneiddio y mae angen ei wneud ledled Cymru. Rydym yn datblygu'r polisiau a'r prosiectau a fydd yn ysgogi datgarboneiddio ym maes trafnidiaeth, gan gyfrannu at y Cynllun Cyflawni Carbon Isel cyffredinol.

Mae angen inni sicrhau bod ein dull o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn cynnwys Cymru gyfan, ac yn cynnwys pob unigolyn, cymuned, busnes a gwas cyhoeddus. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddefnyddio pob cyfle yn ei strategaeth ar gyfer adfer o'r pandemig i ymgorffori ac ysgogi newidiadau cadarnhaol mewn perthynas ag allyriadau.

Mae Cynllun Masnachu Allyriadau newydd y DU, a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2021, yn cwmpasu'r prif allyrwyr yn y sectorau pŵer, diwydiant a hedfanaeth (tua 46% o gyfanswm allyriadau Cymru), lle mae 'lwfansau' carbon yn cael eu prynu a'u gwerthu mewn arwerthiannau ac mewn marchnad garbon. Mae'r Awdurdod sy'n ei reoli'n cynnwys y pedair gwlad ar y cyd. Nid yw wedi'i gysylltu eto â chynllun yr UE, er bod y gwledydd datganoledig ac elfennau o Lywodraeth y DU wedi bod yn argymhell gwneud hynny ers cryn amser, ochr yn ochr â'r rhan fwyaf o gyfranogwyr y cynllun.

Uchelgais Llywodraeth Cymru yw sector cyhoeddus sero-net erbyn 2030. Rydym yn parhau i yrru cynnydd yn y maes hwn ac rydym wedi datblygu fframwaith monitro i olrhain cynnydd. Mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yn cynnig cyngor technegol ochr yn ochr â benthyciadau i sefydliadau yn y sector cyhoeddus a sefydliadau cymunedol ar gyfer prosiectau adnewyddadwy ac ôl-osod. Mae amrywiaeth eang o sefydliadau cyhoeddus wedi elwa ar ein rhaglen arloesi datgarboneiddio sy'n ceisio nodi a meithrin syniadau a chysyniadau newydd a blaengar i gefnogi gwaith ar ddatgarboneiddio, yn enwedig y rhai sy'n ystyried yr her o safbwynt systemau.

Plannu Coed

Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd wedi gwneud argymhellion ar sut y dylai Cymru gyrraedd ei thargedau hinsawdd. Rhan ganolog o'r llwybr cytbwys hyd at 2050 yw cynyddu'n sylweddol nifer y coed sy'n cael eu plannu, gyda 43,000 hecтар o goetir newydd yn cael eu plannu erbyn 2030, a 180,000 hecтар newydd erbyn 2050. Mae hynny'n cyfateb i blannu o leiaf 5,000 hecтар y flwyddyn. Y llynedd, dim ond 290 hecтар o goetir a blannwyd yng Nghymru, ac nid yw nifer yr hecтарau o goetir sy'n cael eu creu bob blwyddyn wedi bod yn fwy na 2,000 ers 1975. Mae datblygu Coedwig Genedlaethol ymhellach, gan gynnwys drwy blannu coetiroedd cymunedol, yn rhan allweddol o hyn. Mae lle hefyd i wella'r sector ehangach, a darparu rhagor o bren at ddibenion eraill, e.e. adeiladu yng Nghymru.

Bydd gwneud hyn yn cynnwys llawer o bartneriaid, gan nad Llywodraeth Cymru a fydd yn plannu'r mwyafrif helaeth o goetiroedd newydd, ond cymunedau, ffermwyr a pherchnogion tir eraill ledled Cymru.

Mae angen inni wella'r ffordd rydym yn gweithio gyda chymunedau a pherchnogion tir sydd am blannu coed, ac mae angen inni ddysgu oddi wrth arbenigedd cymunedau a pherchnogion tir. Mae pobl yn cael y canllawiau presennol yn gymhleth ac maent i'w gweld yn gyfyngol. Byddwn hefyd yn dechrau ar y gwaith o nodi ardaloedd ar gyfer 30 o goetiroedd newydd a 100 o Goedwigoedd Bach lawn fel rhan o'r rhaglen Goedwig Genedlaethol.

Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, cynhaliodd y Dirprwy Weinidog adolygiad trwyadl o blannu coed, a dyna fydd y man cychwyn ar gyfer datblygu strategaeth ar gyfer diwydiant pren Cymru. Bydd yn cynnwys edrych ar rôl Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), sydd wedi ymrwymo i werthu hyd at 30% o'i bren yn unol ag egwyddorion gwahanol i egwyddorion y model presennol, sy'n canolbwyntio ar wneud yr elw mwyaf posibl. O ran galw, cam cyntaf pwysig tuag at ysgogi galw uwch yw galluogi dadansoddiadau o gylch bywyd y carbon mewn adeiladau, gan gynnwys 'carbon ymgorfforedig' mewn deunyddiau adeiladu.

Bydd rhagor o fanylion yn cael eu hamlinellu mewn Cynllun Gweithredu Coetir newydd i Gymru yn ddiweddarach eleni.

Natur a bioamrywiaeth

Daeth Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) 2020 i'r casgliad bod bioamrywiaeth yn cael ei cholli ar gyfraddau na welwyd mohonynt o'r blaen, ac mae angen i Gymru adeiladu rhwydweithiau ecolegol cadarn a lleihau ei heffaith y tu allan i Gymru i fynd i'r afael â'r broblem hon. Mae cysylltiadau rhwng safleoedd gwarchoddedig yn ganolog i hyn ac mae ein Cynllun Rhwydweithiau Natur yn canolbwyntio ar wella cyflwr a chadernid y rhwydwaith o safleoedd gwarchoddedig, gan gynnwys drwy gefnogi cymunedau i gymryd rhan weithredol yn y gwaith o ofalu amdanynt.

Mae ein Cynllun Gweithredu Adfer Natur yn nodi'r amcanion a'r camau allweddol sydd eu hangen yng Nghymru i gyflawni ein huchelgeisiau ar gyfer adfer natur, fel rhan o gyflawni ein nodau ein hunain gyfer Cymru Gydnerth a'n hymrwymiaadau byd-eang i atal colli bioamrywiaeth. Mae'n nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth – ond mae angen inni wneud mwy, a cynyddu ein buddsoddiadau mewn rhwydweithiau ecolegol cadarn a newid trawsnewidiol i wrthdroi colli bioamrywiaeth. Mae'n adlewyrchu'r angen i weithredu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng ym myd natur, ac adeiladu rhwydweithiau ecolegol cydnerth ar draws ein holl dirwedd a morwedd i ddiogelu rhywogaethau a chynefinoedd a'r manteision maent yn eu darparu, gan roi sylw i'r problemau sydd wrth wraidd colli bioamrywiaeth, a thargedu ymyriadau er mwyn helpu rhywogaethau i adfer lle bo angen. Bydd y Cynllun yn cael ei ddiwygio i ystyried y fframwaith newydd. Rydym yn datblygu dangosyddion a fydd yn ein galluogi i sicrhau ein bod yn gwneud cynnydd tuag at amcanion a thargedau y cytunwyd arnynt yn rhyngwladol. Mae hefyd yn ofynnol inni ddiweddarau ein Polisi Adnoddau Naturiol i gyflawni ein dyletswyddau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Ein gweledigaeth ar gyfer ein moroedd yw eu bod yn lân, yn iach, yn ddiogel, yn gynhyrchiol ac yn fiolegol amrywiol. Mae gan Gymru gynefinoedd morol pwysig, fel coedwigoedd morwellt a morfeydd heli. Mae ein dull gweithredu yn seiliedig ar asesu, diogelu a rheoli, ac adfer. Mae cynllunio a rheoleiddio datblygiadau newydd mewn modd effeithiol yn hanfodol er mwyn galluogi twf cynaliadwy yn y sector morol, yn enwedig er mwyn datblygu prosiectau ynni'r môr i gyfrannu at sicrhau sero net.

Economi Gylchol

Mae 50% o'n carbon wedi'i ymgorffori yn y cynhyrchion a'r gwasanaethau rydym yn eu defnyddio. Mae sicrhau economi wirioneddol gylchol – lle rydym yn parhau i ddefnyddio deunyddiau cyhyd ag y bo modd, a lle mae lefelau cynyddol uwch o'n hanghenion yn cael eu diwallu ag opsiynau amgen, mwy cynaliadwy – yn hanfodol i ddatgarboneiddio. Mae cynyddu ailgylchu a lleihau gwastraff ymhellach yn parhau i fod yn allweddol, ac mae gennym gyfle i ddatblygu ein seilwaith ymhellach i gael mwy o werth economaidd o'r deunyddiau a gesglir.

Yr amgylchedd

Mae ansawdd aer gwael yn cyfrannu at iechyd gwael, gyda'r bobl sydd fwyaf agored i niwed yn dioddef fwyaf o'r effeithiau. Mae manteisio i'r eithaf ar amcanion i wella ansawdd aer, er enghraifft, drwy deithio llesol, yn allweddol. Bydd y gwaith o ddatblygu Deddf Aer Glân i Gymru yn cael ei lywio gan yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn a gynhaliwyd yn gynharach eleni.

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwmo i gyflwyno deddfwriaeth i wahardd rhagor o blastigau untro, ond nid yw goblygiadau Deddf y Farchnad Fewnol 2020 ar gyfer y cynigion hyn yn glir ar hyn o bryd.

Mae cynnal a gwella ein hecosystem ddŵr ddeinamig yn ganolog i fynd i'r afael â'r heriau strategol ehangach sy'n ein hwynebu. Mae angen inni sicrhau bod ein systemau draenio a charthffosiaeth yn gynaliadwy, yn cael eu rheoli'n effeithiol a'u bod yn addas i'r diben o ran bodloni'r galw wrth iddo newid. Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn, mae angen inni gydweithio gydag amrediad eang o randdeiliaid.

Mae lleihau'r perygl o lifogydd i bobl, eiddo a seilwaith yn ein cymunedau yn flaenoriaeth bwysig. Ledled Cymru, mae dros 245,000 o adeiladau mewn perygl o lifogydd, gyda bron i 400 o adeiladau eraill mewn perygl o erydu arfordirol. Ni fydd y newid yn yr hinsawdd ond yn cynyddu'r risgiau, Mae ein Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn nodi sut y byddwn yn rheoli'r risgiau dros y deng mlynedd nesaf. Mae'n canolbwyntio nid yn unig ar leihau'r risgiau presennol, ond hefyd ar atal problemau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol drwy wneud penderfyniadau mwy gwybodus, rheoli dŵr yn well a rheol llifogydd yn naturiol. Tynnodd y stormydd ym mis Chwefror 2020 sylw at y risgiau mae ein treftadaeth ddiwydiannol yn eu peri.

Mae'r trefniadau llywodraethu amgylcheddol dros dro ar ôl diwedd cyfnod pontio'r UE wedi bod ar waith ers 1 Ionawr 2021. Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu trefniadau parhaol, a bydd hyn yn golygu datblygu deddfwriaeth.

Trafnidiaeth

Mae Gweinidogion Cymru yn uniongyrchol atebol am Rwydweithiau Ffyrdd Strategol o draffyrdd a chefnffyrdd yng Nghymru, ac fel awdurdod priffyrdd mae ganddynt ddyletswyddau a phwerau statudol i'w gweithredu mewn modd diogel, eu cynnal a'u cadw a'u gwella. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ffyrdd lleol.

Yn ddiweddar, gwnaethom gyhoeddi Llwybr Newydd – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 sy'n nodi'r weledigaeth hirdymor ar gyfer system drafnidiaeth hygyrch, gynaliadwy ac effeithlon. Mae hefyd yn gyfrifol am ddatgarboneiddio trafndiaeth, gan gynnwys cerbydau trydan, ansawdd aer a chodi ffi ar ddefnyddwyr ffyrdd; creu lleoedd, gan gynnwys diogelwch ar y ffyrdd, ailddyrrannu gofod ar y ffyrdd a theithio llesol a chynllun y Bathodyn Glas.

Ar hyn o bryd mae'r tair rhaglen Metro yn cael eu hariannu a'u darparu drwy gyfuniad o ffynonellau. Mae gwaith adeiladu sylweddol ar y gweill ar Fetro De Cymru i wella gwasanaethau ac i integreiddio trafndiaeth gyhoeddus a theithio llesol yn well.

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am weithredu'r strategaeth a'r polisiâu mewn perthynas â Bysiau a Thrafnidiaeth Gymunedol fel y nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

Mae gan Lywodraeth Cymru rôl sylweddol wrth sicrhau bod y rhwydwaith trafndiaeth yn cefnogi system gynaliadwy o ddosbarthu nwyddau yng Nghymru. Mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn ymrwmo i gynllun cyflawni cludo nwyddau a logisteg i ategu'r rôl hon.

Mae polisi ar gyfer y rhan fwyaf o borthladdoedd Cymru a'r gwaith o'u rheoleiddio wedi'u datganoli, ond mae cryn dipyn o bolisi morol ehangach, gan gynnwys llongau, a gedwir yn

ôl o hyd. Mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn ymrwmo i ddatblygu strategaeth newydd i Gymru ar gyfer porthladdoedd a morgludo sy'n adlewyrchu'r heriau a'r cyfleoedd o ganlyniad i'r newidiadau i symudiadau morgludo ar ôl ymadael â'r UE.

Seilwaith Digidol

Gall 94% o safleoedd ledled Cymru gael mynediad at wasanaeth band eang cyflym iawn ac mae gan 19% o gartrefi yng Nghymru fynediad at gysylltiadau ffibr llawn. Targed Llywodraeth y DU yw i 85% o safleoedd yn y DU fod â mynediad at fand eang 1Gbps erbyn 2025. Mae gan 90% o Gymru fynediad at ddarpariaeth 4G dda gan o leiaf un o'r gweithredwyr ac mae gan 60% ddarpariaeth gan y pedwar gweithredwr. Nod y prosiect Rhwydwaith Gwledig a Rennir yw cynyddu hyn i 95% â mynediad at ddarpariaeth 4G dda gan o leiaf un gweithredwr ac 80% gan y pedwar gweithredwr yng Nghymru erbyn 2026.

Ers 2006 mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn goruchwyllo contract sy'n cynnwys y sector cyhoeddus cyfan i ddarparu cysylltiadau i 120 o sefydliadau sector cyhoeddus, gan gynnwys tua 5,000 o leoliadau fel ysgolion, colegau, prifysgolion, gwasanaethau tân, yr heddlu, ysbytai, meddygfeydd ac adeiladau awdurdodau lleol.

Llywodraeth Cymru yw partner arweiniol y consortiwm ar gyfer prosiect arloesi technoleg 5G symudol y Cymoedd Technoleg sy'n canolbwyntio ar gysylltu'r cefn gwlad. Mae'r prosiect, sy'n rhedeg tan fis Mawrth 2022, yn darparu seilwaith ac arloesedd 5G mewn rhannau o Flaenau Gwent a Sir Fynwy. Ystyrir bod y rhaglen yn 'braenaru'r tir' wrth ddatblygu modelau newydd ar gyfer rhoi rhwydweithiau symudol posibl ar waith yn y dyfodol, ac yn gyfle posibl i gynyddu gwasanaethau o'r fath.

Technoleg Ddigidol a Data

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Strategaeth Ddigidol i Gymru ym mis Mawrth 2021. Mae'n nodi ein huchelgais i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus modern, effeithlon a symlach ar gyfer pobl Cymru, ac ar yr un pryd ysgogi arloesi yn ein heconomi a chefnogi canlyniadau ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol. Datblygwyd Cynllun Cyflawni ar wahân i gefnogi'r Strategaeth. Amcanion y Strategaeth yw: Cymru Ddigidol – gwella bywydau pawb drwy gydweithio, arloesi a gwasanaethau cyhoeddus gwell.

Sefydlwyd y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol fel corff hyd braich ym mis Mehefin 2020 i wella gallu mewn gwasanaethau cyhoeddus digidol a chefnogi'r sector cyhoeddus i ddatblygu prosiectau. Mae'r Ganolfan yn darparu rhaglen o hyfforddiant ymwybyddiaeth ddigidol i uwch arweinwyr ac aelodau etholedig ar draws y sector cyhoeddus. Mae hefyd yn datblygu safonau gwasanaeth cyffredin ac yn rhannu'r arferion gorau i sbarduno cydweithio traws-sector sy'n bodloni anghenion a disgwyliadau defnyddwyr.

Tai

Mae'r Rhaglen Ôl-Osod wedi'i Optimeiddio gwerth £70 miliwn yn cydweithio â Landlordiaid Cymdeithasol, gyda'r bwriad o baru datgarboneiddio'r grid, technolegau gwresogi newydd a gwelliannau i adeiladwaith gan ddefnyddio technoleg bresennol i sicrhau y gall landlordiaid ddechrau ar y gwaith o wneud eu cartrefi'n garbon sero-net yn ystod y degawd nesaf. Mae hyn yn gwneud tai cymdeithasol batrwm enghreifftiol ar gyfer landlordiaid eraill. Mae heriau

o hyd i rentwyr preifat a pherchen-feddianwyr, ond mae'r cyfeiriad ar gyfer polisi ar dai yn glir. Byddwn yn dysgu ac yn defnyddio'r arfau sydd ar gael drwy'r tai cymdeithasol mae Llywodraeth Cymru yn eu darparu i brofi cydsyniadau, i ennill calonnau a meddyliau, ac i ddeall profiadau byw tenantiaid o gartrefi carbon isel. Yna bydd y wybodaeth, y sgiliau a'r capasiti a enillir yn cael eu defnyddio yn y sectorau rhentu preifat a pherchen-feddianwyr.

Mae'r Rhaglen Ôl-osod hefyd yn datblygu'r sgiliau a'r capasiti yn ein cadwyni cyflenwi lleol a busnesau bach a chanolig – nid yn unig fel is-gontractwyr i gwmnïau cenedlaethol mawr ond fel prif gontractwyr, ac yn sicrhau bod cymaint o'r buddsoddiadau â phosibl yn aros yng Nghymru. Mae blwyddyn gyntaf y Rhaglen Ôl-osod (2020-21) yn cynnwys pum cais llwyddiannus, pedwar gan awdurdodau lleol ac un gan gonsortia o 27 o landlordiaid cymdeithasol. Mae'r prosiect yn cael ei werthuso'n fyw wrth iddo fynd rhagddo.

Ochr yn ochr â'r Rhaglen Ôl-osod, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Landlordiaid Cymdeithasol i werthuso rhaglen SATC (Safon Ansawdd Tai Cymru) hirsefydlog ac i ddatblygu safon ddiwygiedig. Bydd y fersiwn newydd yn ein symud ymlaen i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a newid yn yr hinsawdd, gan bennu'r safonau ar gyfer ôl-osod cartrefi cymdeithasol.

Mae'r Llywodraeth hon yn benderfynol o fynd i'r afael â'r heriau mae newid yn yr hinsawdd yn eu peri ym maes darparu tai. Cyn bo hir, byddwn yn rhoi safon ansawdd tai newydd ar waith sy'n pennu gofynion ansawdd ar gyfer tai cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar hyblygrwydd, lle a chynaliadwyedd. Bydd y safon yn cynnwys gofynion newydd uchelgeisiol ar gyfer dyluniadau carbon isel.

Bydd landlordiaid cymdeithasol yn arwain y ffordd o ran ei gwneud yn ofynnol i gartrefi newydd a ariennir ag arian cyhoeddus fod o ansawdd uchel, yn hardd ac yn garbon isel. Mae'r safonau wedi'u cynllunio i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer y gymuned, yr economi a llesiant, ac i gefnogi cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol. Y nod yw y bydd y safonau hyn yn berthnasol i bob cartref newydd yng Nghymru yn y dyfodol.

Adfywio Canol Tref

Cyhoeddwyd agenda Trawsnewid Trefi ym mis Ionawr 2020 gyda phecyn cymorth ar gyfer canol trefi sydd bellach werth £136 miliwn. Mae hyn yn adeiladu ar y buddsoddiad rhagamcanol presennol o £800 miliwn mewn dros 50 o drefi ers 2014 i ailadeiladu ac adnewyddu adeiladau a mannau cyhoeddus a mynd i'r afael ag adeiladau gwag. Y flaenoriaeth yw sicrhau cynaliadwyedd hirdymor canol ein trefi a'n dinasoedd drwy gynyddu nifer yr ymwelwyr a'u gwneud yn lleoedd y mae pobl eisiau bod ynddynt. Mae ein rhaglen Trawsnewid Trefi yn canolbwyntio ar wella bioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd; ailbwrpasu adeiladau sydd wedi cael eu hesgeuluso; cynyddu mannau ar gyfer gweithio hyblyg a byw; a darparu mynediad at wasanaethau a hamdden.

Mae dau fenthyciad mawr iawn wedi cael eu rhoi i safle Ness Tar yng nghanol tref Caerffili a safle Hoover ym Merthyr Tudful. Rhoddwyd blaenoriaeth i'r rhain oherwydd eu hagosrwydd i ganol trefi a'r gallu i greu tai carbon isel o ansawdd uchel, mannau gwyrdd, a mynediad i lwybrau trafniadaeth gyhoeddus. Roedd Trawsnewid Trefi yn cydnabod yr angen am adfywio yng ngoleuni'r heriau sy'n wynebu canol trefi. Mae'r heriau hyn, wrth gwrs, wedi cael eu gwaethygu gan COVID-19, ond dim ond cyflymu tueddiadau a oedd eisoes ar waith a wnaeth COVID.

Yn gywir

Julie James

Julie James AS

Y Gweinidog Newid Hinsawdd



Lee Waters AS

Y Dirprwy Weinidog Newid
Hinsawdd